
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 10-02-2022

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts,

Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Sion W Jones, W G Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Aron John (Cynllun Yfory: Hyfforddai Proffesiynol Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)
Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)
Jeremy Evans (Archwilio Cymru)
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled LI Evans a Selwyn Griffiths

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

- a) Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams yn eitem 5 ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu yn gyflogedig gan y Cyngor

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth

- b) Y Cynghorydd W Gareth Roberts yn eitem 5 ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu yn gyflogedig gan y Cyngor

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2021 fel rhai cywir

5. PENDERFYNIAD CABINET 18/01/22: EITEM 6 DATHLU DYDD GŴYL DEWI

Amlygodd y Swyddog Monitro bod gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn ei rôl craffu materion corfforaethol, yr hawl i alw penderfyniad Cabinet i mewn i'w adolygu ynghyd a derbyn mwy o wybodaeth sydd yn berthnasol i agweddau'r penderfyniad hwnnw.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol) i gyflwyno'r wybodaeth ac egluro cefndir y penderfyniad.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor Llawn ar y 7 Hydref 2021 wedi penderfynu yn unfrydol ofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Dewi fel diwrnod swyddogol o wyliau i'w gweithlu. Yng nghyfarfod y Cabinet 18 Ionawr 2022, penderfynwyd dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor. Amlygodd fod cais wedi ei dderbyn am fwy o wybodaeth am y gost (oddeutu £200k) i weithredu'r penderfyniad a hefyd sylw, fod modd defnyddio'r arian i bwrpas arall er budd trigolion Gwynedd.

Eglurodd yr Aelod Cabinet nad oedd cost i ddiwrnod ychwanegol o wyliau ar y 1af o Fawrth 2022 i'r staff sy'n gweithio mewn swyddfa neu gartref - y diwrnod yn cael ei ychwanegu i'w hawl blynyddol. Byddai cost uniongyrchol yn gysylltiedig â staff maes gofal a staff casglu gwastraff fydd yn derbyn diwrnod ychwanegol i'w gymryd eto. Ar gyfer hyn, bydd angen talu cyfar (cost ychwanegol o oddeutu £45k (Gofal) a £30k (Priffyrdd a Bwrdeistrefol). Adroddwyd bod cymhorthyddion dysgu a staff ategol ysgolion yr hawl i ddiwrnod ychwanegol, ond yn gorfod gweithio o fewn tymor ysgol - bydd y rhain yn derbyn addasiadau i'w cyflogau (cost oddeutu £90k). Gydag amodau gwaith Athrawon yn cael ei benderfynu yn genedlaethol, nid oedd modd eu cynnwys yn y penderfyniad.

Eglurwyd mai tanwariant o natur gorfforaethol fyddai'n talu'r costau - arian fyddai'n arferol yn trosglwyddo i gronfa wrth gefn ac nid arian a delir o wasanaethau unigol. Bydd yn daliad un tro, heb effaith ar gyllideb 2022/23. Amcangyfrifiad o uchafswm yw £200k. Ni fydd yr arian yn cael ei ryddhau i'r adrannau hyd nes bydd y gwariant wedi digwydd.

Diolchwyd i'r swyddogion am ymateb i'r penderfyniad drwy weithredu a chynnal trafodaethau gyda'r Undebau i sicrhau bod y dyhead yn cael ei wireddu. Pwysleisiwyd bod y Cabinet wedi ymateb mewn ewyllys da i benderfyniad unfrydol y Cyngor Llawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Cefnogi dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ond angen ei wneud yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol i bawb
 - Bod ymateb y cyhoedd wedi bod yn eithaf negyddol
 - Amseriad y penderfyniad yn achosi pryder - mewn cyfnod o gynnydd mewn trethi, a chostau byw, o ble mae'r arian wedi dod?
 - Cytuno gyda'r cysyniad ond y cyfnod yn anghywir
 - Angen pwysu eto ar Lywodraeth i ail ystyried ei wneud yn wyliau swyddogol
 - Nad oedd gwybodaeth ynglŷn â chost diwrnod ychwanegol o wyliau wedi ei gyflwyno na'i drafod yn y Cyngor Llawn - a fyddai canlyniad y bleidlais yn wahanol?
 - Cynigion mewn Cyngor Llawn allan o reolaeth - angen ystyried beth sy'n gyfreithiol.
 - Bod £200k yn swm sylweddol – dim ymgynghori wedi ei wneud gyda staff
 - Bod gwell pwrpas i'r arian? Ydy hwn yn gamddefnydd o arian cyhoeddus?
 - A oes gan y Cyngor y grym perthnasol i roi hawl i ddiwrnod o wyliau ychwanegol?
 - Angen cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet, iddynt newid eu penderfyniad a pharhau i lobio i Lywodraeth San Steffan
- Diolchwyd am yr esboniad ar eglurhad. Derbyn bod hawl craffu'r penderfyniad, ond rhyfeddu bod y mater wedi ei alw i mewn gan rai aelodau

- Bod y Cabinet wedi ymateb i gynnig unfrydol gan y Cyngor Llawn
- Bod rhesymau AS Paul Scully dros wrthod cydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn ffurfiol fel Gŵyl y Banc yn sarhaus
- Bod dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn rheswm i ymfalchïo yn ein diwylliant
- Bod rhoi diwrnod o wyliau ychwanegol i staff yn fodd o werthfawrogi eu hymdrechion dros y ddwy flynedd ddiwethaf
- Bod cyflogwyr eraill yn cefnogi'r penderfyniad ac yn dilyn yr esiampl
- Bod angen cydnabyddiaeth swyddogol i'r Wyl
- Testun balchder bod Gwynedd yn arwain

Mewn ymateb i sylw bod rhybuddion o gynnig yn mynd allan o reolaeth yn y Cyngor Llawn, nododd y Swyddog Monitro bod y rhybudd o gynnig penodol yma wedi ei fframio yn briodol a bod y cais gan y Cyngor i'r Cabinet ystyried y cynnig hefyd yn un priodol. Ategydd bod gan y Cyngor Llawn yr hawl i ddatgan barn, ond dim y grym i wneud penderfyniad.

Yng nghyd-destun agweddau statudol, nodwyd bod hawliau'r Cyngor i gyflogi staff a gosod amodau gwaith (gan gynnwys dyddiadau gwyliau) yn dod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adran 112. Nodwyd bod hawl sylfaenol gan y Cyngor i gyflogi staff a gosod amodau rhesymol o dan y Ddeddf yma.

Mewn ymateb i sylw am Gymhwysedd Cyffredinol, eglurwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 wedi cyflwyno Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (General Power of Competence) sydd yn nodi na all y Cyngor ddefnyddio pŵer i wneud rhywbeth lle mae Deddfwriaeth flaenorol yn cyfyngu ar eu gallu i weithredu. Ystyriwyd nad oedd y Pŵer yn berthnasol yma oherwydd bod Deddf 1972 yn rhoi hawl i'r Cyngor osod gwyliau.

Ategydd bod Egwyddorion Wednesbury, sydd yn nodi bod rhaid i'r Cyngor ddod i benderfyniad drwy gloriannu beth sydd yn berthnasol yn unig gan anwybyddu'r amherthnasol, hefyd wedi ei ystyried. Barn y Swyddog Monitro oedd bod penderfyniad y Cabinet yn parhau o fewn pwerau statudol yr awdurdod oherwydd bod ffynhonnell ariannol briodol ar ei gyfer a bod y mater yn ymwneud a gosod dyddiad gwyliau i staff sydd o fewn hawl y Cyngor. Ystyriwyd nad oedd penderfyniad y Cabinet felly yn anghyfreithlon nac yn amhriodol.

Mewn ymateb i sylw nad oedd ymgynghoriad staff wedi ei weithredu, nodwyd bod swyddogion wedi ymgynghori gyda cynrychiolwyr yr Undebau Llafur cydnabyddedig yn unol a'r trefniadau ymgynghori arferol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i'r Cabinet ail ystyried y penderfyniad i roi dyddiad o wyliau i staff oherwydd bod y gost o £200k yn sylweddol

Pleidleisiwyd ar y cynnig

PENDERFYNWYD

Derbyn penderfyniad y Cabinet 18-01-2022

Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol â pharagraff 2.10 o'r adroddiad.

6. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD Tachwedd 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Nodwyd bod effaith ariannol Covid19 wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor - yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm (gwerth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £10 miliwn hyd yma eleni). Ategwyd bod ceisiadau i adhawlio yn cael ei gwneud yn fisol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cymryd camau i lunio rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 drwy ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion yn Ionawr 2021, eglurwyd bod oediad mewn gwireddu arbedion yn parhau mewn rhai meysydd, a'r oediad hynny yn ffactor amlwg o ganlyniad i'r argyfwng. Tynnwyd sylw at dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau ynghyd a manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion.

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - rhagwelwyd gorwariant o bron i £1 miliwn eleni (£995k) gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Prif feysydd gorwariant - gwasanaethau pobl hŷn, anabledau dysgu a gofal cymunedol gydag effaith Covid yn parhau i gael ardrawiad sylweddol ar yr Adran. Eto eleni gyda gwerth dros £3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod. Caniatawyd dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.
- Adran Plant a Theuluoedd - dyrannwyd £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllideb 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu. O ganlyniad, rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn.
- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol – bod problemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn parhau ynghyd a thrafferthion gwireddu arbedion mewn nifer o feysydd (gwerth £666k). Yr adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol yn ymwneud â Covid, ond yn ffyddiog bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddigolledu am weddill y flwyddyn.
- Corfforaethol - rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac yn cyfrannu at danwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Ategwyd bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant ar gyllidebau Corfforaethol a hefyd gan danwariant gan fwyafrif o'r adrannau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi bod gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a /neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt - a yw hyn wedi ei gwblhau?
- A yw'n bosib dadansoddi problemau gorwariant fel bod modd gweld beth yw rhagolygon gorwariant tymor hir (e.e., cynnydd mewn costau fflyd, costau trin mwy o wastraff ayyb) gan eu gwahanu o faterion arbedion? Gall hyn amlygu arbedion neu'r angen i ail ystyried y gyllideb
- A oes arian digonol yn y gyllideb o ystyried mai'r un penawdau sy'n codi bob blwyddyn, gan dderbyn bod gosod cyllideb i'r Gwasanaeth Oedolion a Llesiant yn anodd

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd bod y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd a'r Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gorwario oherwydd oediad mewn gwireddu arbedion - Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £855k a £666k gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Tynnwyd sylw at y rhestr bidiau gan nodi bod y drefn bidiau wedi

ystyried y pwysau hynny sydd wedi codi ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac yna blaenoriaethu'r bidiau yn effeithiol, yn y gobaith y byddai'r arian yn mynd i'r meysydd mwyaf anghenus. Ategwyd bod hyn wedi llwyddo wrth flaenoriaethu bidiau 2021/22 i'r Adran Plant a Theuluoedd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r mandad gan y Cabinet i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i fynd at wraidd problemau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, cadarnhawyd bod system casglu data a gwybodaeth ariannol bellach yn weithredol ac wedi gwella'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

7. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid o raglen gyfalaf ddiwygiedig (sefyllfa diwedd Tachwedd 2021) a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Tynnwyd sylw at effaith argyfwng Covid19 ar y rhaglen gyfalaf gan amlygu mai dim ond 37% o'r gyllideb oedd wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd 2021 o'i gymharu â 31% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 51% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19). Ategwyd bod dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £127.7 miliwn am y 3 blynedd 2021/22 - 2023/24 wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £3.7 miliwn ers yr adolygiad diwethaf ac ategwyd mai'r prif gasgliadau oedd bod y Cyngor gyda chynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £52.1 miliwn eleni, gyda £27.4 miliwn ohono, sef 53%, wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

Eglurwyd bod £22.1 miliwn o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys:

- £6.2 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai
- £5.8 miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd
- £5.4 miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 ac Eraill (unfed ganrif ar hugain)

Tynnwyd sylw at y prif gynlluniau ynghyd a rhestr grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor eu denu ers yr adolygiad diwethaf oedd yn cynnwys:

- £2.3 miliwn Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £1.4 miliwn Grant Llywodraeth Cymru tuag at Atal Llifogydd
- £0.4 miliwn Grant Cronfa Symbyliad Economaidd
- £0.3 miliwn Grant Gofal Plant Ysgol Treferythyr.

Yng nghyfarfod o'r Cabinet (18 Ionawr 2022) penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r holl argymhellion.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod yr adroddiad yn adlewyrchu newyddion da
- Llongyfarch y staff hynny sydd yn chwilio ac yn llwyddo i ddenu arian ychwanegol - y swm sylweddol iawn ac yn fuddsoddiad yng nghymwysterau'r Cyngor

Mewn ymateb i gwestiwn am gynlluniau 2022/23 sydd wedi eu hail broffilio ers y gyllideb wreiddiol (a bod y ffigwr yr un fath o flwyddyn i flwyddyn) ac a yw goblygiadau costau /

prisiau yn codi wedi ei adeiladu mewn i'r cynllun neu lithriad tebygol, nodwyd bod chwyddiant ar ei lefel uchaf ers blynyddoedd maith ac felly, tra bod swm penodol yn y gyllideb ar gyfer eitemau cyfalaf, mae'n cyfyngu pa mor bell all yr arian fynd. Cyfeiriwyd at drafodaeth yn y Cabinet yn Hydref 2021 ar adolygiad cyllideb gyfalaf ddiwedd Awst lle nododd y Prif Weithredwr bod penderfyniad bwriadol wedi ei wneud i geisio llithro rhai cynlluniau cyfalaf gan aros i sefyllfa prisiau, megis coed, sefydlogi. Ategwyd bod adlewyrchiad o'r llithriadau wedi eu cynnwys yn y ffigyrau.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor a'i Adrannau**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Croesawyd Mr Dewi Morgan i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Pennaeth Cyllid

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid a nodwyd ers 2015/16, fel rhan o strategaeth ariannol y Cyngor, bod gwerth £35m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu ar gyfer y cyfnod 2015/16 - 2021/22. Adroddwyd, wrth gyfeirio at y cynlluniau arbedion am y cyfnod o'r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2020/21 lle ymddengys bod 96%, sef dros £32 miliwn o'r £34 miliwn o arbedion, wedi eu gwireddu. Y prif gynlluniau sydd eto i'w cyflawni yw cynlluniau gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

Ateggodd y Pennaeth Cyllid, gydag Adrannau'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng ers Ebrill 2020 bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd.

Adroddwyd bod 45% o arbedion 2021/22, y flwyddyn ariannol gyfredol, wedi eu gwireddu sydd o werth £436k, allan o gyfanswm o £967k. Ategwyd mai'r adrannau sydd gyda'r gwerth uchaf o ran cynlluniau eto i'w cyflawni yw'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Cydnabuwyd bod gwireddu gwerth £32.8m o arbedion (allan o gyfanswm o £35 miliwn) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac er bod cynlluniau arbedion gwerth £1m, sydd wedi eu hoedi yn symud yn eu blaen, ystyriwyd bod rhai risgiau i gyflawni gwerth £0.8m o gynlluniau.

Yng nghyd-destun cynlluniau ariannol 2022/23 adroddwyd bod adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23 wedi ei weithredu gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Cyllid. Amlygwyd bod rhaid cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellid cyflawni dau gynllun arbedion gwerth £489,750 - Cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' gwerth £279,750 yn yr Adran Plant a Theuluoedd a'r Cynllun 'Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill' gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Yng nghyfarfod y Cabinet 18 Ionawr 2022, penderfynwyd dileu'r ddau gynllun yma o'r gyllideb ac ail-broffilio rhai cynlluniau arbedion (gwerth £1,290,250) i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Nodwyd mai £595,000 oedd gwerth arbedion y cynlluniau sy'n weddill i'w tynnu o gyllideb 2022/23.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNIAD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd 30 Ionawr 2022. Amlygwyd bod 7 o archwiliadau'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau ynghyd ag un archwiliad grant.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro - nid oedd unrhyw fater yn codi

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliodd ar bob archwiliad. Amlygwyd, hyd at ddiwedd Ionawr 2022 bod 45.24%, allan o'r 42 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 19 wedi ei ryddhau yn derfynol.

Adroddwyd bod 14 archwiliad wedi eu canslo a hynny oherwydd cyfeirio staff o'r Uned i gynorthwyo gyda'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu a chynorthwyo'r Gwasanaeth Budd dal i ddelio gyda thaliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a Thaliadau Cymorth Hunan-ynysu.

Nodwyd bod bwriad cyflwyno Cynllun Archwilio 2022/23 i'r Pwyllgor nesaf

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2021/22**

11. CYLLIDEB 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant drafft o 8.8%, sy'n cyfateb i werth £18.1m mewn ariannu allanol (cyfartaledd ledled Cymru yn 9.4%) ar gyfer 2022/23 sy'n welliant arwyddocaol ar yr hyn a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er derbyn setliad rhesymol eleni, adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2022/23. Yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant uwch nag y bu ers sawl blwyddyn, bod cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23.

Ceisir penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod 15/02/22 i argymhell i'r Cyngor Llawn 3/03/22 sefydlu cyllideb o £295.2m ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213.2m, £82m o incwm o'r Dreth Cyngor (gyda chynnydd o 2.95%) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £59m yn 2022/23.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb (cyfanswm o £20.2m) gan amlygu pedwar pennawd o gynnydd yn arbennig.

- Chwyddiant Cyflogau o £8.5m – y gyllideb yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2022/23 o 4% ar gyfer yr holl weithlu ynghyd a chynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol fydd yn weithredol o Ebrill 2022.
- Chwyddiant Arall o £4m - Swm sy'n cynnwys effaith y 'cyflog byw' ar gostau a ffioedd taladwy i gyflenwyr preifat ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro.
- Pwysau ar Wasanaethau o £6.7m - argymhell cymeradwyo bidiau gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Yn ychwanegol i'r bidiau parhaol, argymhellwyd cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m i'w ariannu o'r Gronfa Trawsnewid. Nodwyd bod y bidiau a gyflwynwyd wedi eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymhell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.
- Pwysau Covid-19 o £1.4m. Ers Ebrill 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol a cholled incwm o ganlyniad i'r pandemig allan o'r Gronfa Caledi (cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth oddeutu £20m yn 2020/21, ac oddeutu £14.4m yn ystod 2021/22). Fodd bynnag, mae Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys y byddai'r cymorth hwn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 a bydd angen i'r awdurdodau lleol ariannu unrhyw gostau ychwanegol / colled incwm yn sgil Covid-19 wedi hynny. Nodwyd, er bod £1.4m wedi ei ddarparu er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol, i ddygymod â'r sefyllfa, nid oedd y Pennaeth Cyllid yn rhagweld y byddai'n ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau, ond amlygodd bod cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Ategwyd bod Cronfa Adfer Covid wedi ei sefydlu wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a gellid gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. O ganlyniad i'r hyblygrwydd mae'r setliad yn ei gynnig, nodwyd y byddai gwerth £1.8m o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2022/23. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w tynnu allan o gyllideb 2022/23, yn hytrach na £2.4m.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru. Roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod y gyllideb yn un gytbwys ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gadarn, ac er y cynnydd mewn treth Cyngor (sydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan) byddai'n lleihau pwysau ar yr adrannau i wneud arbedion ac yn rhoi gwell sail iddynt barhau i gynnig gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â demograffi a'r datganiad bod lleihad net mewn nifer disgyblion cynradd ac os yw hyn yn cael ei ragweld fel patrwm tymor hir, llai o blant? llai o deuluoedd? llai o weithwyr i'r dyfodol?, nodwyd er bod y sefyllfa yn mynd i fyny ac i lawr, bod tuedd a phryder erbyn hyn bod y lleihad yn batrwm tymor hir. Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n rhannu'r data perthnasol gyda'r Cyngorydd.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr opsiynau i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2022/23 yn eu cyfarfod 15/2/22**

12. STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a rheolaeth trysorlys y Cyngor. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi derbyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose a oedd yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr. Cyfeiriwyd at y gweithgareddau cyfalaf a thynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £64.1 miliwn yn 22/23 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r fffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r adnoddau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau ein hunain yw'r cronfeydd. Daw gweddill o'r arian trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £176.6 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 22/23, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y cyngor aros odd itano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthycia, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ategwyd y bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at un newid i'r meincnod ymrwymiad lle cyflwynwyd effaith benthyca Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r angen i fenthyc yn y dyfodol. Nodwyd y byddai'n debygol bydd y Cydbwyllgor yn symud i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig cyn gweld angen benthyg. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun strategaeth buddsoddi, polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod £10m yn cael ei gadw i sicrhau hylifedd parhaus ac o ystyried y cyfnod ansicr a'r dychweliadau isel presennol, ystyriwyd bod cadw hylifedd a diogelwch yn flaenoriaeth.

Cyfeiriwyd at y rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion ac mai Arlingclose fydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor am y blynyddoedd nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth**

13. GWEITHIO I'R DYFODOL A'R GEFNOGAETH LLESIAINT MEDDYLIOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth am gynlluniau'r Cyngor yng nghyswllt trefniadau gweithio i'r dyfodol a hefyd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llesiant meddyliol staff. Adroddwyd y byddai'r weledigaeth ar gyfer gweithio i'r dyfodol yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cabinet ar y 15 o Chwefror 2022.

Adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i drin a thrafod materion lles, trefniadau gwaith ac o adeiladu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Cyfeiriwyd at y prif yrwyr ar gyfer mabwysiadu trefniadau gweithio newydd ac at rai o'r egwyddorion oedd yn sylfaen ar gyfer trefniadau gweithio'n hyblyg. Pwysleiswyd, petai amgylchiadau'r swydd yn caniatáu, bydd unrhyw drefniadau gweithio yn hyblyg yn wirfoddol i aelodau staff. Amlygwyd bod staff yn cael eu hannog i drafod eu sefyllfa yn rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell gyda llesiant staff yn ganolog i'r trefniadau newydd. Yn dilyn cynnal ymgynghoriad gyda staff ac mewn ymateb i'r weledigaeth o weithio i'r dyfodol, nodwyd bod addasiadau ar waith i swyddfeydd er mwyn hwyluso'r drefn newydd o weithio, i adolygu amodau gwaith a pholisïau cyflogaeth ac o ddarparu rhaglen hyfforddiant fyddai'n cynnwys sgiliau arwain a chynnal timau hybrid.

Nodwyd bod y weledigaeth yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth weithio o bell, gyda'r nod o alluogi 30% o weithlu Cymru i weithio yn agos / neu o'u cartrefi. Ategwyd bod y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer llesiant ac iechyd staff gan y Cyngor yn cael ei gydnabod ar "Lefel Aur" Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Gweithlu wedi gorfod ymdopi gyda chostau gwres, trydan a ffôn dros gyfnod y pandemig - angen ystyried cyfraniadau treth incwm i'r dyfodol
- Cyngor newydd mis Mai – sicrhau cysylltiad wyneb yn wyneb a'r gallu i gyd-drafod
- Yng nghyd-destun lles staff, anodd adnabod problemau o weithio o adre
- Cymeradwyo'r weledigaeth a'r pwyslais ar hyblygrwydd
- Rhagweld cyfleoedd i weithwyr o Dde'r Sir i geisio am swyddi 'canolog'
- Angen sicrhau bod yr elfen o weithio mewn tîm yn cael ei gynnal
- Cais i sicrhau bod prentisiaid yn cael cyfleoedd priodol o ddatblygu eu cymeriadau o gydweithio fel tîm

Mewn ymateb i sylw bod angen cwblhau gwaith sylweddol i wneud y swyddfeydd yn ddiogel, nodwyd mai'r Adran Tai Ac Eiddo sy'n arwain ar y gwaith ond eu bod megis dechrau adnabod yr angen ynghyd a siâp y swyddfeydd. Nodwyd bod un swyddfa eisoes wedi ei haddasu a dyma fydd y templed ar gyfer eraill.

Yng nghyd-destun treth incwm, nodwyd bod staff wedi cael eu hysbysu o reoliadau HMRC a chanran wedi manteisio ar gymorth / lwfans treth am weithio o adre. Yng nghyd-destun costau teithio a chyfeiriad yn yr adroddiad, *'bydd gan bob aelod o staff safle gwaith corfforaethol enwebedig o hyd, a gallent hawlio treuliau teithio a chynhaliadau ohoni, ac felly ni fydd newid i'r polisi presennol ar hawlio costau teithio'*, nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag Undebau ond na fydd unrhyw addasiadau yn cael eu gwneud i gytundebau gwaith o ran costau teithio busnes. Bydd angen ail ymweld â'r mater os angen newid 'canolfan gwaith' i'r dyfodol.

Derbyniwyd y sylwadau am fanteision cyfathrebu wyneb yn wyneb a chydabuwyd yr angen am bwysigrwydd cynnal sgyrsiau ymysg staff ac ymysg Aelodau ynghyd a chynnig cefnogaeth i brentisiaid. Addawodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb yn gadarnhaol i hyn.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynlluniau ar gyfer gweithio i'r dyfodol ynghyd a nodi'r gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig i staff yng nghyswllt llesiant meddyliol**

14. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd pedwar adroddiad gan Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar raglen waith Chwarter 3 Archwilio Cymru ynghyd ag adroddiadau oedd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar.

Croesawyd Jeremy Evans (Archwilio Cymru) i gyflwyno'r adroddiadau.

1. Diweddariad Chwarterol - Chwarter 3 (hyd at 31ain Rhagfyr 2021)

Diweddariad chwarterol bellach yn rhan o'r drefn y Pwyllgor o dderbyn gwybodaeth am y gwaith sydd yn cael ei wneud yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Derbyniwyd y wybodaeth

2. Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Gwnaed y gwaith fel rhan o raglen statudol gwaith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cyflwynwyd y canfyddiadau ynghyd ag argymhellion ar gyfer cryfhau'r dull o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal a threfniadau cysylltiedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru.

Ar y cyfan canfu bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau addas ond hefyd yn cario risgiau sylweddol. Un o'r risgiau a amlygwyd oedd strwythur y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPRh) - er yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', y strwythur, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, a bod angen cryfhau'r llinellau atebolrwydd.

Mewn ymateb, gwnaed sylw bod yr adroddiad yn amlygu gwendid polisi Llywodraeth Caerdydd sydd yn gorfodi gweithio yn rhanbarthol gan greu strwythur sy'n llesteirio'r Cyngor rhag gweithio yn effeithiol. Cyfeiriwyd at waith gan y Cyngor, sy'n cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu model gofal cartref newydd yng Ngwynedd fydd yn helpu pobl i fyw eu bywydau mor llawn â phosib yn eu cymuned. Bydd y model newydd yn gwella'r ffordd mae'r gwasanaeth gofal cartref yn cael ei drefnu a'i ddarparu yng Ngwynedd, drwy gadw'r trefniadau mor lleol â phosib. A yw hon yn drefn y dylid ei mabwysiadu ar draws y Gogledd?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae craffu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Gogledd Cymru ac os yw'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn pob Cyngor unigol neu yn ehangach, nodwyd bod angen strwythur cadarn ac atebolrwydd clir - awgrym i edrych ar strwythur Bwrdd Uchelgais Economaidd neu esiamplau eraill da a'i hargymhell i'r BPRh.

Diolchodd Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) am yr adroddiad gan nodi nad oedd y maes yn un hawdd i'w ddatgymalu gyda sawl trafodaeth wedi ei chynnal ynglŷn â gweithredu polisi Llywodraeth Cymru. Amlygodd bwysigrwydd darparu lleoliadau nysio a phreswyl mor lleol â phosib i'r mwyafrif, fel bod teulu a

ffrindiau yn gefnogol i'r ddarpariaeth, ond derbyn yr angen i gydweithio yn rhanbarthol i ddarparu gofal arbenigol. Ategwyd nad datrysiad gan un rhanbarth sydd yma. Rhaid cydweithio gyda chynghorau cysylltiol, ee, Ceredigion, Conwy a Môn i sicrhau safon dda, sy'n hyfyw ariannol boed yn fewnol neu'n allanol. Rhaid ceisio cytundeb a chanfod y berthynas gywir.

Derbyniwyd y wybodaeth

3. Adolygiad o Reoli Perfformiad y Cyngor

Adroddwyd bod fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol o dan yr amgylchiadau presennol a rhai adrannau gyda thipyn o waith i'w wneud. Tynnwyd sylw at y canfyddiadau ynghyd a'r argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Y dylai pawb fod yn awyddus i sicrhau'r perfformiad gorau - angen sicrhau gwybodaeth a data cywir i wneud penderfyniadau
- Angen sicrhau bod rheolwyr wedi defnyddio gwybodaeth gadarn a phriodol fel sail i wneud penderfyniad, e.e., bod gwerth am arian

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau pwy oedd rheoli perfformiad, nodwyd bod rheoli perfformiad yn gyfrifoldeb ar bawb - swyddogion o dan oruchwyliaeth y Prif Weithredwr i sicrhau gwybodaeth o ansawdd da fel bod modd i gynghorwyr wneud penderfyniadau darbodus, craffu ar berfformiad a nodi meysydd i'w gwella.

4. Crynodeb o waith Archwilio Cymru 2021

Cyflwynwyd crynodeb blynyddol o waith Archwilio Cymru a gwblhawyd ers cyhoeddi'r Archwiliad Blynyddol Diwethaf ym mis Ionawr 2021. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at y gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oedd wedi ei gwblhau ynghyd a chrynodeb o'r prif negeseuon.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiadau

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

CADEIRYDD